**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y BIL CYFIAWNDER TROSEDDOL**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y caniateir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os bydd Bil yn Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Cyfiawnder Troseddol (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 14 Tachwedd 2023. Mae'r Bil ar gael yn: Bil Cyfiawnder Troseddol - Biliau Seneddol - Senedd y DU

3. Ar 22 Tachwedd, ysgrifennais at y Llywydd yn esbonio na fu'n bosibl gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o fewn y terfyn amser arferol o bythefnos o dan Reol Sefydlog 29.

4. Mae fy swyddogion wedi bod yn ymgysylltu â swyddogion yn y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y Bil, sydd wedi cynnwys rhannu amlinelliad o'r mesurau y disgwylir eu cyflwyno fel rhan o'r Bil. Er hynny, ni chafodd swyddogion ond weld y fersiwn derfynol o'r Bil yn llawn lai na 24 awr cyn iddo gael ei gyflwyno.

5. Mae'r Bil yn cynnwys 17 rhan ac yn 156 tudalen o hyd ac mae'n mynd i'r afael ag ystod eang o bynciau. O ystyried ehangder y Bil a'r diffyg cyfle i'w weld yn llawn ymlaen llaw, nid oedd yn bosibl ystyried canlyniadau'r cynigion o safbwynt datganoli yn llawn o fewn y terfyn amser gosod arferol o bythefnos. Rwyf bellach mewn sefyllfa i osod Memorandwm sy'n cyflwyno darlun llawnach o'r cynigion yn y Bil a sut maent yn rhyngweithio â materion datganoledig.

6. Mae'r Memorandwm yn cwmpasu dau gategori o ddarpariaethau ac mae angen cael cydsyniad y Senedd ar gyfer y ddau, er am wahanol resymau. Mae angen cael cydsyniad ar gyfer y categori cyntaf o ddarpariaethau am eu bod yn gwneud "darpariaeth berthnasol" at ddibenion Rheol Sefydlog 29 y Senedd. Mae angen cael cydsyniad ar gyfer yr ail gategori o ddarpariaethau am eu bod yn rhoi swyddogaethau a gadwyd yn ôl i awdurdodau Cymreig datganoledig. Mae'r gwahaniaeth hwn wedi'i nodi'n fanylach isod.

## Amcan(ion) polisi

7. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw cadw cymunedau'n ddiogel trwy:

[1] Noder, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, rydym yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf ac fel "y Senedd" ar ôl hynny oni fydd y cyd-destun yn nodi fel arall.

a. cryfhau'r gyfraith i ddiogelu'r cyhoedd rhag trais a bygythiad;
b. mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched;
c. galluogi asiantaethau gorfodi'r gyfraith i ymateb i'r dechnoleg newidiol a ddefnyddir gan droseddwyr;
d. rhoi'r pwerau angenrheidiol i asiantaethau gorfodi'r gyfraith fynd i'r afael â'r mathau o droseddau a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg;
e. cyflwyno dedfrydu llymach;
f. gwella rheolaeth troseddwyr;
g. cryfhau hyder y cyhoedd mewn plismona.

**Crynodeb o’r Bil**

8. Noddir y Bil gan Swyddfa Gartref y DU. Yn ymarferol mae'n Fil ar y cyd rhwng y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

9. Mae'r Bil Cyfiawnder Troseddol yn cynnwys ystod eang o ddarpariaethau sy'n effeithio ar wahanol feysydd o'r system cyfiawnder troseddol. Mae'n gwneud darpariaeth yn y meysydd a ganlyn:

- Troseddau sy'n ymwneud â phethau a ddefnyddir mewn troseddau difrifol, dwyn neu dwyll.
- Troseddau sy'n annog neu'n cynorthwyo hunan-niweidio difrifol.
- Troseddau sy'n ymwneud â ffotograffau neu ffilmiau personol a voyeuriaeth.
- Atebolrwydd troseddol cyrff corfforaethol a phartneriaethau.
- Pwerau'r heddlu.
- Dedfrydu.
- Trosglwyddo carcharorion i garchardai tramor.
- Rheoli troseddwyr.
- Enillion troseddau ac eiddo arall sy'n gysylltiedig ag ymddygiad troseddol.
- Gorchmynion atal troseddau difrifol.
- Cardota sy'n achosi niwsans.
- Cysgu allan sy'n achosi niwsans.
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Strategaethau trosedd ac anhrefn.
- Yr heddlu.

10. Mae'r Bil yn cynnwys ystod eang o fesurau sy'n effeithio ar feysydd fel troseddau cyllyll, profion cyffuriau adeg arestio, ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau difrifol a threfnedig, Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), capasiti mewn carchardai a'r broses ddedfrydu. Mae hefyd yn cynnwys y ddeddfwriaeth olynol ar gyfer Deddf Crwydraeth 1824, a dyletswydd gonestrwydd newydd ar gyfer plismona.

*Ymgysylltu â Llywodraeth y DU*

11. Mae fy swyddogion wedi ymgysylltu â swyddogion yn y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y cymalau y disgwylir eu cyflwyno fel rhan o'r Bil. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi bod yn gadarnhaol i raddau helaeth, er nad oedd

Llywodraeth Cymru wedi cael gweld y Bil terfynol na'r Nodiadau Esboniadol tan lai na 24 awr cyn i'r Bil gael ei gyflwyno.

**Darpariaethau yn y Bil y mae'n ofynnol cael cydsyniad ar eu cyfer – am eu bod yn gwneud darpariaeth berthnasol ar gyfer Cymru**

*Cymal 11-12: Annog neu gynorthwyo hunan-niweidio difrifol*

12. Mae cymal 11 yn creu trosedd o gyflawni gweithred yn fwriadol a all annog neu gynorthwyo rhywun i hunan-niweidio'n ddifrifol mewn unrhyw fodd, gan gynnwys trwy gymorth uniongyrchol megis rhoi llafn i berson i hunan-niweidio ag ef. Mae cymal 12 yn gwneud darpariaeth sy'n atodol i Gymal 11.

13. Yn wahanol i'r drosedd yn adran 184 o Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023, y mae'n ei disodli, nid yw'r drosedd newydd a gynigir yng nghymalau 11 a 12 wedi'i chyfyngu i annog neu gynorthwyo hunan-niweidio difrifol trwy gyfathrebiadau, cyhoeddiadau neu ohebiaeth lafar neu electronig.

14. Mae'r cymalau yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben atal a chosbi ymddygiad sy'n annog neu'n cynorthwyo hunan-niweidio difrifol. Mae'r diben mwy cyffredinol hwnnw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly mae cydsyniad yn ofynnol at ddiben Rheol Sefydlog 29 y Senedd, i'r graddau y mae'r drosedd yn rhychwantu Cymru ac yn gymwys yng Nghymru.

**Darpariaethau yn y Bil y mae'n ofynnol cael cydsyniad ar eu cyfer – am eu bod yn rhoi swyddogaethau a gadwyd yn ôl i awdurdodau Cymreig datganoledig**

15. Mae'r Bil yn cynnwys ystod o gymalau sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl ac nad ydynt yn gwneud “darpariaeth berthnasol” at ddiben Rheol Sefydlog 29 y Senedd, ond sy'n dal i osod rhwymedigaethau a swyddogaethau a gadwyd yn ôl ar awdurdodau Cymreig datganoledig. Nodir y cymalau hyn isod.

16. Nid yw Rheolau Sefydlog y Senedd yn darparu sail benodol ar gyfer cael cydsyniad y Senedd ar gyfer darpariaethau o'r fath. Fodd bynnag, yn fy marn i mae yna effaith ar faterion datganoledig at ddibenion Confensiwn Sewel ac adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac felly mae cydsyniad y Senedd yn ofynnol.

*Cymal 30 - Asesu a rheoli risgiau a berir gan droseddwyr ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol*

17. Byddai Cymal 30 yn ehangu'r gofyniad iDrefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) fod yn gymwys i'r rhai a gafwyd yn euog o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol. Mae adrannau 325 i 327B o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus penodol wneud trefniadau ar gyfer asesu a rheoli mathau penodol o droseddwyr, yn eu meysydd perthnasol. Yn ymarferol cyfeirir at y trefniadau hyn fel "MAPPA", neu Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd.

18. Mae'r gofynion yn berthnasol i'r heddlu, y Gwasanaeth Prawf, a hefyd nifer o gyrff datganoledig fel awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, etc. Rhaid i'r awdurdodau hynny gydweithredu â'r holl awdurdodau perthnasol eraill sy'n rhan o'r trefniadau hynny.

19. Byddai'r ddarpariaeth hon yn ychwanegu'r drosedd 'ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol mewn perthynas agos neu deuluol' at y rhestr o droseddau y mae'n rhaid i drefniadau MAPPA fod yn gymwys iddynt. Ar hyn o bryd, dim ond o dan ddisgresiwn adran 325(2)(b) (lle bernir bod troseddwr yn peri risg i'r cyhoedd) y caiff awdurdodau perthnasol gymhwyso eu trefniadau i'r drosedd honno.

20. Mae'r ddarpariaeth yn ymwneud â "the management of … persons … convicted of offences (whether or not detained in a relevant institution)", o dan baragraff 175(2), Adran L11, Pennawd L o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. At hynny, mae'n ymwneud ag atal troseddu (sydd wedi'i gadw yn ôl o dan baragraff 39, adran B5, Pennawd B, Rhan 2, o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

21. Mae'r ddarpariaeth yn rhoi swyddogaethau a gadwyd yn ôl i awdurdodau Cymreig datganoledig perthnasol, ac fe'i cynhwysir yn y Memorandwm hwn ar y sail honno.

*Cymalau 38-40, 42-43, 46-47, 51-53, 55-56, 59-61 a 63-64 – Cardota sy'n achosi niwsans a chysgu allan sy'n achosi niwsans*

22. Byddai cymalau 38-40, 42, 43, 46, 47 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol a swyddogion heddlu fynd i'r afael â chardota sy'n achosi niwsans, gan gynnwys y pŵer i wneud cyfarwyddydau mewn perthynas â chardota sy'n achosi niwsans a hysbysiadau atal, ac i wneud cais am orchmynion atal. Byddai cymalau 51-53, 55, 56, a 59-61 yn rhoi pwerau tebyg i awdurdodau lleol a swyddogion heddlu i fynd i'r afael â chysgu allan sy'n achosi niwsans. Ar hyn o bryd mae gan swyddogion yr heddlu bwerau llawer ehangach o dan Ddeddf Crwydraeth 1824. Byddai cymal 63 yn cyflwyno pŵer atodol i awdurdodau orfod cael manylion person er mwyn rhoi cyfarwyddyd etc. Mae cymal 64 yn nodi manylion atodol eraill.

23. Bydd y darpariaethau'n gymwys o ran Cymru.

24. Yn flaenorol, deddfwyd ar gyfer cysgu allan a chardota gan Ddeddf Crwydraeth 1824. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddiddymu Deddf 1824 os daw'r darpariaethau hyn i rym.

25. Mae prif bwrpas y darpariaethau hyn yn ymwneud â chynnal y drefn gyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Felly, mae'r cymalau cadw yn Adrannau B5 (paragraff 40) a B6 (paragraff 43) o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn berthnasol. Ystyrir nad yw unrhyw gysylltiad â thai yn fwy na chysylltiad llac neu ganlyniadol. O ganlyniad, mae'r darpariaethau hyn y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac nid oes angen gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â hwy. Fodd bynnag, o ystyried eu

bod yn rhoi swyddogaethau (sy'n swyddogaethau a gadwyd yn ôl) ar awdurdodau lleol perthnasol yng Nghymru, gellir ystyried eu bod yn ymwneud â materion datganoledig (yn unol â Chonfensiwn Sewel) a/neu'n dod o fewn y disgwyliad yn y Canllawiau ar Ddatganoli y ceisir cydsyniad ar eu cyfer fel arfer.

26. Mae'r ddarpariaeth yn rhoi swyddogaethau a gadwyd yn ôl i awdurdodau lleol perthnasol yng Nghymru, ac fe'i cynhwysir yn y Memorandwm hwn ar y sail honno.

*Cymalau 65-71 ac Atodlen 8 – Cynigion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol*

27. Mae cymalau 65-71 yn cynnwys amrywiaeth o fentrau ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddai'r darpariaethau yn:
    a) Gostwng y trothwy presennol i lys allu atodi pŵer i arestio i waharddeb o dan Ran 1 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.
    b) Caniatáu i swyddogion yr heddlu roi cyfarwyddydau adran 35 i wahardd person o ardal am hyd at 72 awr, i fyny o 48 awr.
    c) Caniatáu i swyddogion yr heddlu ac awdurdodau lleol roi hysbysiadau cau adran 77 am 48 awr, yn hytrach na 24 awr, ac, os bydd uwch swyddog neu aelod o staff yn llofnodi'r fath rybudd, byddai uchafswm y cyfnod cael ei gynyddu i 72 awr, o 48 awr.
    d) Caniatáu i swyddog heddlu neu awdurdod lleol roi Hysbysiad Diogelu Cymunedol adran 43 i berson 10 oed a throsodd. Ar hyn o bryd, y terfyn oedran isaf yw 16 oed.
    e) Ymestyn y pwerau i wneud Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus i uwch swyddogion yr heddlu – ar hyn o bryd dim ond awdurdodau lleol all wneud y gorchmynion hyn o dan Bennod 2 o Ran 4 o Ddeddf 2014.
    f) Rhoi pŵer i ddarparwyr tai cymdeithasol cofrestredig roi hysbysiad cau mewn perthynas â safleoedd y maent yn berchen arnynt neu'n eu rheoli – ar hyn o bryd dim ond uwch swyddogion yr heddlu neu awdurdod lleol sy'n gallu rhoi'r hysbysiadau hyn.
    g) Cynyddu terfyn uchaf y ddirwy o dan hysbysiad cosb benodedig o £100 i £500.
    h) Caniatáu i 'bersonau achrededig' o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (y cyfeirir atynt yn gyffredin fel "swyddogion cynllun achredu diogelwch cymunedol") roi hysbysiadau cosb benodedig. Gall unigolion o'r fath gael eu hachredu gan brif swyddog yr heddlu; maent fel arfer yn cynnwys rolau fel wardeiniaid parciau, gwarchodwyr diogelwch, a gwarchodwyr trenau.
    i) Creu dyletswydd ar Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o adolygiadau achos ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal, creu llwybr i ddioddefwyr gwestiynu penderfyniadau, cynnal adolygiadau o'r ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn rhai amgylchiadau, gwneud a hyrwyddo gweithdrefnau ar gyfer adolygiadau o'r fath a hysbysu ymgeiswyr am ganlyniad adolygiadau ac unrhyw argymhellion a wnaed.

j) Ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol (gan gynnwys awdurdodau lleol) adrodd ar ystadegau amrywiol mewn perthynas â chwynion y maent yn eu derbyn am ymddygiad gwrthgymdeithasol.

28. Pwrpas y cymalau yw addasu mesurau presennol i atal ac amharu ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gwella'r trefniadau atebolrwydd ar gyfer monitro a gwella dulliau awdurdodau perthnasol o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu meysydd perthnasol. O ganlyniad, maent yn ymwneud â thestun Rhannau 1 i 4 a 6 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 at ddibenion y cymal cadw o dan baragraff 43, Adran B6, Pennawd B, Rhan 2, Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac fe'u cedwir ar y sail honno. O ganlyniad, mae'r darpariaethau hyn y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac nid oes angen gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â hwy. Fodd bynnag, o ystyried eu bod yn rhoi swyddogaethau (sy'n swyddogaethau a gedwir yn ôl) ar awdurdodau lleol perthnasol yng Nghymru, gellir ystyried eu bod yn ymwneud â materion datganoledig (yn unol â Chonfensiwn Sewel) a/neu'n dod o fewn y disgwyliad yn y Canllawiau ar Ddatganoli y ceisir cydsyniad ar eu cyfer fel arfer.

*Cymal 72 – Strategaethau Trosedd ac Anhrefn*

29. Mae cymal 72 yn ymwneud â strategaethau trosedd ac anhrefn. O dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, rhaid i'r strategaethau hyn gael eu llunio a'u gweithredu gan awdurdodau cyfrifol ar gyfer maes llywodraeth leol benodol, sy'n cynnwys yr heddlu, yr awdurdod tân ac achub, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r Gwasanaeth Prawf. Cyfeirir at y grŵp hwn o awdurdodau yn gyffredin fel "partneriaeth diogelwch cymunedol". Yng Nghymru, rhaid i strategaethau o'r fath ymdrin â nifer o faterion, y mae rhai ohonynt wedi'u datganoli (er enghraifft camddefnyddio cyffuriau ac alcohol) a rhai wedi'u cadw yn ôl (er enghraifft trais difrifol).

30. Byddai cymal 72 yn mewnosod pŵer ychwanegol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu wneud argymhellion ynghylch llunio a gweithredu eu strategaeth trosedd ac anhrefn. Mae'n rhaid i'r argymhellion gefnogi'r amcanion a nodwyd yn y cynllun heddlu a throseddu a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Rhaid i'r awdurdodau cyfrifol ystyried yr argymhellion wrth lunio a gweithredu'r strategaeth. Os na fyddant yn gweithredu'r argymhellion, rhaid iddynt adrodd yn ôl i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac egluro'r rhesymau am hynny.

31. Pwrpas y ddarpariaeth yw cryfhau rôl y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a helpu i gyflawni eu cynlluniau heddlu a throseddu. O ganlyniad, mae'n ymwneud yn bennaf â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu sy'n fater a gadwyd yn ôl o dan baragraff 42, Adran B5, Pennawd B, Rhan 2, Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. I'r graddau eu bod yn ymwneud â hyrwyddo cyflawni cynlluniau heddlu a throseddu, maent hefyd wedi'u cadw yn ôl o dan baragraffau 40 (atal, canfod ac ymchwilio i droseddau), 41 (cynnal y drefn gyhoeddus) a 41 (plismona) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

32. Mae'r ddarpariaeth yn rhoi swyddogaethau a gadwyd yn ôl i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru ac maent wedi'u cynnwys yn y Memorandwm hwn ar y sail honno.

**Barn Llywodraeth y DU am yr angen i gael cydsyniad**

33. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cael cydsyniad ar gyfer cymalau 11 a 12 ar annog neu gynorthwyo hunan-niweidio. Maent hefyd yn ceisio Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer cymalau 38–47, 51–60, 63, 64, 67, 69, 71 a 72 i'r graddau bod y cymalau hyn yn rhoi pwerau a gadwyd yn ôl i awdurdodau Cymreig datganoledig.

34. Nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno ar hyn o bryd bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 30, 61, 65-66, 68 a 70. Maent wrthi'n adolygu'r sefyllfa hon ac mae posibilrwydd y gallai safbwynt Llywodraeth y DU ar yr angen i gael cydsyniad ar gyfer y cymalau hyn newid. Ymdrinnir â hyn drwy Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn ôl yr angen.

**Cymalau lle argymhellir cydsyniad**

*Cymalau 11-12 – Annog neu gynorthwyo hunan-niweidio difrifol*

35. Mae Gweinidogion Cymru yn fodlon bod y cynigion yn gyson â pholisi Llywodraeth Cymru i leihau hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru. O'i chymharu â'r darpariaethau yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, mae'r drosedd newydd yn elwa o fod yn fwy cynhwysfawr.

36. Mae hwn yn faes lle gallai Gweinidogion Cymru wneud darpariaethau gan ddefnyddio ein pwerau presennol, yn hytrach na chydsynio i Fil Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, gan fod diogelwch a llesiant pobl yn gyfrifoldeb a rennir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, rydym yn fodlon mai Bil y DU gyfan yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur at y diben hwn, ac yn yr achos hwn ei bod yn ddefnyddiol cael dull cysylltiedig ledled y DU ar gyfer y Ddeddf Diogelwch Ar-lein a'r Bil hwn.

*Cymalau 65, 66, 68 a 70 – Mentrau ymddygiad gwrthgymdeithasol*

37. Byddai Cymal 65 yn gostwng y trothwy i lys atodi pŵer i arestio i waharddeb o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Mae'r gwaharddebau hyn, fel y'u nodir o dan Ran 1 o'r Ddeddf, yn bwerau sifil i reoli ymddygiadau gwrthgymdeithasol. Gellir eu gwneud ar gais gan awdurdodau a gedwir yn ôl (megis yr heddlu) yn ogystal â nifer o awdurdodau Cymreig datganoledig (megis awdurdodau lleol a darparwyr tai).

38. Ar hyn o bryd, rhaid i'r llys fod yn fodlon bod yr ymddygiad yn cynnwys, neu y gallai gynnwys, defnyddio neu fygwth defnyddio trais, neu fod perygl o niwed difrifol i bobl cyn y gellir atodi'r pŵer i arestio i waharddeb. Byddai'r newid yn dileu'r gofyniad hwn ac yn caniatáu i lysoedd atodi'r pŵer i arestio pryd bynnag y maent yn fodlon fod hynny'n briodol.

39. Byddai Cymal 66 yn cryfhau cyfarwyddydau a gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 drwy wneud y canlynol:

    a) Caniatáu i swyddogion yr heddlu roi cyfarwyddydau adran 35 (gwahardd person o ardal) am hyd at 72 awr, i fyny o 48 awr.
    b) Caniatáu i swyddogion yr heddlu ac awdurdodau lleol roi hysbysiadau cau adran 77 am 48 awr, yn hytrach na 24 awr.
    c) Os bydd uwch swyddog neu aelod o staff yn llofnodi hysbysiad adran 77, bydd uchafswm y cyfnod yn cynyddu o 48 i 72 awr.

40. Byddai Cymal 68 yn estyn pwerau i'r heddlu wneud Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus. Mae'r Gorchmynion hyn yn gwahardd gweithgareddau penodol (megis yfed alcohol), a/neu yn ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau penodol, o fewn ardal gyhoeddus ddiffiniedig, wneud rhai pethau penodol. Ar hyn o bryd dim ond awdurdodau lleol all wneud y gorchmynion hyn, er eu bod yn gwneud hynny ar sail ymgynghoriad â'r heddlu.

41. Byddai Cymal 70 yn cryfhau hysbysiadau cosb benodedig drwy wneud y canlynol:

    a) Cynyddu terfyn uchaf dirwy o £100 i £500.
    b) Caniatáu i 'bersonau achrededig' o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (a elwir yn aml yn "swyddogion cynllun achredu diogelwch cymunedol") roi'r math hwn o hysbysiad cosb benodedig. Mae hyn fel arfer yn cynnwys pobl fel wardeiniaid parciau, swyddogion diogelwch, a swyddogion trenau.

42. Mae Llywodraeth Cymru wedi trafod y cynigion hyn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, sy'n eu cefnogi. Ar y sail honno, rwy'n fodlon bod cydsyniad yn briodol, i'r graddau bod y darpariaethau hyn yn addasu swyddogaethau awdurdodau datganoledig Cymru.

**Cymalau lle mae angen datrys materion allweddol o bryder cyn y gellir argymell cydsyniad:**

*Cymal 30 - Asesu a rheoli risgiau a berir gan droseddwyr ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol*

43. Mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) yn ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu, carchardai a'r gwasanaeth prawf gydweithio i reoli rhai troseddwyr. Mae dyletswydd ar awdurdodau datganoledig Cymru, gan gynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gydweithredu â MAPPA o dan y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (2003). Gall gwasanaethau iechyd meddwl neu anableddau dysgu hefyd fod yn asiantaeth arweiniol ar gyfer MAPPA mewn rhai amgylchiadau penodol.

44. Byddai'r ddarpariaeth hon yn ychwanegu'r drosedd 'ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol mewn perthynas agos neu deuluol' at y rhestr o droseddau y mae'n rhaid i drefniadau MAPPA fod yn gymwys iddynt. Ar hyn o bryd dim ond yn ôl disgresiwn y caiff ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol ei gwmpasu gan MAPPA, a byddai'r newid hwn yn ei gwneud yn orfodol.

45. Mae Gweinidogion Cymru yn credu bod ymdrin â'r rhai a gafwyd yn euog o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol o dan MAPPA yn ddull a allai fod i'w groesawu sy'n cyd-fynd â nodau Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru. Dylai annog asiantaethau i gydweithio i ddeall a mynd i'r afael ag achosion o ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol.

46. Bydd yn bwysig sicrhau bod Llywodraeth y DU yn deall goblygiadau adnoddau ehangu cwmpas MAPPA fel hyn ar gyfer awdurdodau datganoledig Cymru, a’u bod yn gweithredu ar hyn. Rydym wedi gofyn i Lywodraeth y DU ddarparu rhywfaint o wybodaeth bellach am gwmpas a goblygiadau tebygol y newidiadau fel y gallwn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn deall yn llawn beth yw effaith ymarferol y cynnig, ac nid ydym mewn sefyllfa i argymell cydsyniad nes bod yr wybodaeth hon wedi cael ei derbyn.

*Cymalau 38-40, 42, 43, 46, 47 – Cardota sy'n achosi niwsans*

47. Mae gan Weinidogion Cymru bryderon ynglŷn â'r cynigion hyn. Croesawir y ffaith bod y cynigion hyn yn fwy penodol na Deddf Crwydraeth 1824, y maent wedi'u cynllunio i'w disodli. O ran ein hymgysylltiad â Llywodraeth y DU, maent hefyd wedi dweud y dylid ystyried y mesurau fel y cam olaf ar ôl rhoi cynnig ar yr holl lwybrau ataliol eraill. Fodd bynnag, credwn fod y cynigion yn debygol o atal pobl agored i niwed rhag ymwneud â'r gwasanaethau y maen arnynt eu hangen i'w cefnogi i symud oddi wrth gardota, yn hytrach na mynd i'r afael ag achosion sylfaenol a chymhleth y gweithgaredd hwn.

48. Yn ogystal, mae'r diffiniad o gardota sy'n achosi niwsans a ddarperir yng Nghymal 49 o'r Bil yn eang iawn - er enghraifft mae pob cardota o fewn 10 metr i beiriant codi arian yn cael ei ystyried yn gardota sy'n achosi niwsans a gallai'r person o bosib fod yn agored i gyfarwyddydau, hysbysiadau neu orchmynion i symud ymlaen (byddai methu â chydymffurfio â'r rhain yn drosedd). Hoffem bwysleisio mai bregusrwydd y rhai sy'n ymwneud â chardota yw'r flaenoriaeth bwysicaf yn y sefyllfaoedd hyn, oni bai bod niwed gwirioneddol yn cael ei achosi.

49. Mae Gweinidogion Cymru yn credu y byddai'n fwy defnyddiol i ganolbwyntio ar ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n ein helpu i ddeall a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol cardota, yn hytrach na throseddu'r gweithgaredd.

50. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Fodd bynnag, hyd nes y gallant fynd i'r afael â'n pryderon, nid ydym mewn sefyllfa i argymell cydsyniad ar y cymalau hyn.

*Cymalau 51 i 61, 63 a 64 – Cysgu Allan sy'n achosi Niwsans*

51. Mae gan Weinidogion Cymru bryderon ynglŷn â'r cynigion hyn. Yn yr un modd â'r cynigion ar gardota sy'n achosi niwsans, croesawir bod y cynigion yn fwy penodol na Deddf Crwydraeth 1824. Yn ein hymgysylltiad â Llywodraeth y DU, maent hefyd wedi dweud y dylid ystyried y mesurau fel y cam olaf ar ôl rhoi cynnig ar yr holl lwybrau ataliol eraill. Fodd bynnag, credwn y bydd y dull hwn yn atal cyfleoedd i bobl agored i niwed sy'n cysgu ar y stryd ymgysylltu â gwasanaethau, sef yn aml yr unig lwybr diogel i adael yr amgylchiadau sydd wedi eu gorfodi i gysgu allan.

52. Yn ein barn ni, mae creu pŵer 'symud ymlaen' i fynd i'r afael â chysgu allan pan fo'n achosi difrod, aflonyddwch neu ofid yn annhebygol o arwain at unrhyw newid cadarnhaol mewn ymddygiad. Gall waethygu'r sefyllfa, gan arwain at golli cyfleoedd i gynorthwyo unigolion i gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt.

53. Yn hytrach na dull sy'n cosbi ymddygiad cysgu allan, credwn y dylai amgylcheddau seiliedig ar seicoleg ac ymatebion sy'n seiliedig ar drawma fod yn sail i bob rhyngweithiad â'r rhai sy'n cysgu allan. Mae hyn yn cydnabod y bydd profiadau trawmatig, amgylchiadau economaidd-gymdeithasol a phrofiadau blaenorol pobl o wasanaethau, sy'n aml yn negyddol, yn dylanwadu arnynt.

54. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Fodd bynnag, hyd nes y gallant fynd i'r afael â'n pryderon, nid ydym mewn sefyllfa i argymell cydsyniad ar y cymalau hyn.

*Cymal 67 - Caniatáu rhoi Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned i blant mor ifanc â 10 oed*

55. Cyflwynwyd Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Maent yn gosod rheolau penodol megis ei gwneud yn ofynnol i rywun gadw draw o le penodol, rhoi'r gorau i dreulio amser gyda phobl benodol neu fynychu grŵp cymorth. Gall yr hysbysiadau hyn gael eu cyflwyno gan swyddogion yr heddlu ac awdurdodau lleol (yn ogystal â phersonau a ddynodwyd gan awdurdod lleol at y diben hwnnw).

56. Nid yw cael Hysbysiad Gwarchod y Gymuned yn drosedd. Fodd bynnag, gallai mynd yn groes i Hysbysiad arwain at orchymyn cadw neu ddirwy o hyd at £2,500.

57. Ar ôl trafod y cynnig i ostwng y terfyn oedran o 16 i 10 gyda phartneriaid, mae gan Weinidogion Cymru bryderon y gallai gostwng y terfyn oedran arwain at effaith stigmateiddio neu droseddoli. Nid ydym ychwaith yn fodlon ar hyn o bryd bod y cynnig yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r argymhellion yn Adroddiad Arsylwadau Terfynol Pwyllgorau'r Cenhedloedd Unedig 2023.

58. Yn hytrach nag ehangu'r defnydd o Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned i blant iau, credwn y byddai'n fwy effeithiol i ddatblygu mwy o ddulliau seiliedig ar

drawma a thystiolaeth o weithio gyda phlant i fynd i'r afael ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

59. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Fodd bynnag, hyd nes y rhoddir sylw digonol i'n pryderon, nid ydym mewn sefyllfa i argymell cydsyniad ar y cymal hwn.

*Cymal 69 – Rhoi pŵer i ddarparwyr tai cymdeithasol cofrestredig gyflwyno hysbysiadau cau*

60. Gall uwch swyddogion yr heddlu neu awdurdod lleol roi hysbysiadau cau i wahardd mynediad i safle ac atal niwsans neu anhrefn am hyd at 48 awr. Byddai cymal 69 yn rhoi'r pŵer i ddarparwyr tai cymdeithasol cofrestredig roi hysbysiad cau mewn perthynas ag eiddo y maent yn berchen arno neu'n ei reoli.

61. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y gallai'r cynnig hwn danseilio ymdrechion i leihau digartrefedd ar y stryd, ac y gallai o bosibl beri trawma i'r bobl fregus sy'n dibynnu ar y cyfleusterau hyn.

62. Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd sy'n byw mewn lletyau dros dro, yn enwedig gwestai a lletyau gwely a brecwast, yn aelwydydd un person. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod hyn yn aml o ganlyniad i dor perthynas ac yna anallu i ddod o hyd i gartref. Byddai'r cynnig hwn yn lleihau argaeledd tai ymhellach i'r garfan hon a byddai'n mynd yn groes i ddiben canolog tai â chymorth: helpu pobl i reoli a goresgyn y trawma sy'n gysylltiedig â digartrefedd ac achosion digartrefedd.

63. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Fodd bynnag, hyd nes y rhoddir sylw digonol i'n pryderon, nid ydym mewn sefyllfa i argymell cydsyniad ar y cymal hwn.

*Cymal 71 – Cryfhau'r broses adolygu achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol*

64. Ni chafodd manylion y cynigion hyn, gan gynnwys y ddyletswydd arfaethedig i awdurdodau lleol ddarparu data ar ymddygiad gwrthgymdeithasol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, ei rannu'n llawn cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno ym mis Tachwedd. Yn ogystal, rydym yn dal i gadarnhau gyda Llywodraeth y DU sut y bydd y ddyletswydd hon yn gweithio'n ymarferol a maint unrhyw faich ar awdurdodau lleol.

65. Ar y sail honno, ni fyddwn mewn sefyllfa i argymell cydsyniad nes ein bod wedi cael digon o amser i drafod y cynigion gyda phartneriaid yma yng Nghymru. Mae CLlLC a Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Chymru yn ystyried y cynigion gyda'u haelodau, ac rydyn ni'n parhau i drafod y cynigion gyda Llywodraeth y DU.

*Cymal 72 – Creu pŵer newydd i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wneud argymhellion ar strategaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol*

66. Byddai'r cymal hwn yn creu pŵer newydd i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu wneud argymhellion ynghylch llunio a gweithredu strategaethau trosedd ac

anhrefn y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cynnwys cymysgedd o awdurdodau a gedwir yn ôl ac awdurdodau datganoledig ar gyfer ardal benodol. Mae'n rhaid i'r argymhellion a roddir gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu gefnogi'r amcanion yn eu Cynllun Heddlu a Throseddu.

67. O dan y cymal, rhaid i aelodau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ystyried yr argymhellion. Os na fyddant yn gweithredu'r argymhellion, rhaid iddynt adrodd yn ôl i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac egluro eu rhesymeg.

68. Rydym wedi siarad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru am y cynigion hyn. Ar sail y sgyrsiau hyn mae Gweinidogion Cymru yn pryderu y byddai'r cynigion yn tanseilio rôl Comisiynwyr Heddlu a Troseddu fel cyfranogwyr cyfartal mewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, oherwydd y byddai'r model presennol lle mae partneriaid gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn dod at ei gilydd fel cymheiriaid yn cael ei ddisodli gan strwythur llai defnyddiol 'o'r brig i lawr'. Dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eisoes fod yn rhan o strategaethau troseddau ac anhrefn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol fel aelodau gweithredol o'r Partneriaethau ac ni ddylai fod angen iddynt wneud argymhellion ar wahân.

69. Rydym hefyd yn pryderu y byddai'r cynigion yn cyflwyno baich gweinyddol ychwanegol ar Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, sydd eisoes â chyfrifoldeb presennol i roi sylw i'r amcanion yn y Cynllun Heddlu a Throseddu a osodwyd gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu. Dylai'r fframwaith rheoleiddio rymuso Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn eu gwaith yn hytrach na'u beichio â gofynion diangen.

70. Yng Nghymru, yn wahanol i Loegr, mae Comisiynwyr hefyd yn wahoddedigion statudol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n creu llwybr arall ar gyfer cydweithio rhwng Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a phartneriaid.

71. Ein barn ni yw y dylai Llywodraeth y DU ganolbwyntio ar sicrhau bod y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau presennol yn y maes hwn yn gweithio mor effeithiol â phosibl, yn hytrach na chreu gofynion newydd a gwneud y dirwedd yn gymhleth heb fod angen.

72. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Fodd bynnag, hyd nes y rhoddir sylw digonol i'n pryderon, nid ydym mewn sefyllfa i argymell cydsyniad ar y Cymal hwn.

**Goblygiadau ariannol**

73. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i’r Bil hwn ar hyn o bryd.

**Casgliad**

74. Yn fy marn i, mae'n briodol i argymell cydsyniad mewn perthynas â Chymalau 11-12, 65, 66, 68 a 70 o'r Bil.

75. Yn fy marn i, nid yw'n briodol i argymell cydsyniad ar gyfer Cymalau 30, 38 i 40, 42, 43, 46, 47, 51-61, 63, 64, 67, 69, 71 neu 72 nes bod trafodaethau pellach wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU.

**Jane Hutt AS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**29 Ionawr 2024**